# Ieithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion yng Nghymru

## 1. Arolwg ar gyfer arweinwyr uwchradd ac/neu athrawon ieithoedd rhyngwladol

Annwyl Bennaeth – mae Estyn wrthi'n cwblhau adroddiad thematig ar ieithoedd rhyngwladol. A fyddech cystal ag anfon yr arolwg hwn at eich adran ieithoedd rhyngwladol er mwyn iddi ymateb iddo, os gwelwch yn dda?

Diolch i chi am ymateb i'r arolwg hen fel rhan o adroddiad thematig Estyn ar ieithoedd rhyngwladol. Rydym yn cwblhau'r gwaith hwn, ar ran Llywodraeth Cymru, i gael dealltwriaeth lawnach o addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru. Mae casglu barn cymaint â phosibl o adrannau ieithoedd tramor yn rhan bwysig o'n gwaith. Mae'r arolwg hwn yn ddienw ac rydym yn eich annog i fod yn onest yn eich ymatebion.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd: Hysbysiad Preifatrwydd.

## 2.

**1. Fel rhan o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, a ydych chi wedi gweithio â chydweithwyr cynradd yn eich clwstwr i gynllunio'r cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol?**

- ☐ Ydym
- ☐ Nac ydym

Esboniwch eich ateb:

## 3.

**2. Gan fod ieithoedd rhyngwladol yn cael eu cyflwyno yn y cyfnod cynradd erbyn hyn, a ydych chi wedi newid yr hyn rydych yn ei addysgu i adlewyrchu hyn?**

☐ Ydym

☐ Nac ydym

Esboniwch eich ateb:

# 4.

**3. A ydych chi'n credu bod eich ysgol wedi dyrannu digon o amser cwricwlaidd i ieithoedd rhyngwladol ym Mlynyddoedd 7-9?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys manylion am sut caiff eich cwricwlwm ieithoedd ei gyflwyno:

# 5.

**4. Pa ieithoedd ydych chi'n eu haddysgu yn eich ysgol chi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- [ ] Ffrangeg
- [ ] Almaeneg
- [ ] Sbaeneg
- [ ] Arall (rhowch fanylion):

# 6.

**5. Tua pha ganran o'ch carfan Blwyddyn 10 bresennol sy'n astudio iaith ryngwladol ar gyfer TGAU?**

- ☐ 0%
- ☐ 0%-10%
- ☐ 10%-20%
- ☐ 20%-30%
- ☐ Mwy na 30% o'r grŵp blwyddyn

## 7.

**6. Tua pha ganran o’ch carfan Blwyddyn 11 bresennol sy’n astudio iaith ryngwladol ar gyfer TGAU?**

- ☐ 0%
- ☐ 0%-10%
- ☐ 10%-20%
- ☐ 20%-30%
- ☐ Mwy na 30% o’r grŵp blwyddyn

# 8.

**7. Os oes gennych ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer Safon Uwch, dywedwch wrthym beth yw maint y dosbarthiadau ym mhob grŵp blwyddyn. Os oes gennych fwy nag un dosbarth Safon Uwch ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn eich ysgol, ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

| | 1-5 | 6-10 | 11-20 | 20+ | Dim myfyrwyr Safon Uwch eleni |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 12 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 13 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**8. Dywedwch wrthym beth ydych chi'n credu yw'r prif resymau pam mae disgyblion yn dewis astudio ieithoedd ar gyfer TGAU a thu hwnt yn eich ysgol chi. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Maent yn mwynhau ieithoedd
- ☐ Ar gyfer eu rhagolygon gyrfa
- ☐ Maent yn dda am astudio ieithoedd
- ☐ Nid oes ganddynt ddewis gan ei fod yn ofyniad yn ein hysgol ni
- ☐ Mae'n iaith y maent yn ei siarad eisoes yn y cartref/gyda'r teulu
- ☐ Arall (rhowch fanylion):

# 10.

**9. Dywedwch wrthym beth ydych chi'n credu yw'r prif resymau pam nad yw disgyblion yn dewis astudio ieithoedd ar gyfer TGAU a thu hwnt yn eich ysgol chi?**

**10. Sut ydych chi'n annog disgyblion i ddeall manteision astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU a thu hwnt? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Dathlu Diwrnod Ieithoedd Ewrop neu achlysur tebyg
- ☐ Partneriaethau â busnesau a sefydliadau lleol
- ☐ Gweithio â myfyrwyr sy'n llysgenhadon iaith
- ☐ Nosweithiau agored i rieni/gofalwyr
- ☐ Arall (rhowch fanylion):

# 12.

**11. A ydych chi'n teimlo bod digon o gymorth pwnc-benodol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn y cyfnod uwchradd?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Esboniwch eich ateb:

## 13.

**12. A ydych chi neu’ch staff wedi gallu manteisio ar unrhyw ddysgu proffesiynol rydych yn ymwybodol ohono i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol penodol?**

- [ ] Ydw/Ydynt
- [ ] Nac ydw/Nac ydynt

# 14.

**13. Os ydych – Pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar ddysgu disgyblion ac addysgeg athrawon?**

# 15.

**14. Yn gyffredinol, i ba raddau y mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol neu negyddol tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol?**

- ☐ Cadarnhaol iawn
- ☐ Yn weddol gadarnhaol
- ☐ Yn weddol negyddol
- ☐ Negyddol iawn
- ☐ Dwi ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

### 15. Yn gyffredinol, a yw rhieni/gofalwyr yn gweld gwerth mewn disgyblion yn dysgu ieithoedd rhyngwladol?

- ☐ Ydynt
- ☐ Nac ydynt
- ☐ Dwi ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb:

**16. Ydych chi'n cynnal unrhyw weithgareddau i rieni i'w helpu i ddeall pwysigrwydd dysgu iaith ryngwladol?**

- [ ] Ydym
- [ ] Nac ydym